P-04-655 Mynnu ein Hawliau i'r Gymraeg yn y Sector Breifat. Gohebiaeth gan y Deisebydd at y Cadeirydd 17.12.15

Annwyl Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau William Powell AC

Ysgrifennaf atoch yn dilyn cyhoeddiad gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 2ail Rhagfyr eleni sy'n amlinellu amserlen ynghylch gosod Safonau'r Gymraeg ar rai categorïau o gwmnïau preifat. Gallwch chi weld y cyhoeddiad yma: http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/cymraeg/newyddion/Pages/Comisiynydd-yn-cyflwyno-mwy--o-adroddiadau-safonau-ac-yn-cyhoeddi%E2%80%99r-camau-nesaf-wrth-gyflwyno-safonau%E2%80%99r-Gymraeg.aspx

Hoffem bwysleisio nad yw cyhoeddiad y Comisiynydd yn un sy'n bodloni gofynion ein deiseb, sy'n cyfeirio'n benodol at amserlen ar gyfer cynnwys y sector telathrebu o dan y gyfundrefn Safonau. Yn wir, mae'r cyhoeddiad yn groes i'r hyn ddywedodd Comisiynydd y Gymraeg wrthym mewn cyfarfod ar 26ain Hydref eleni sef y byddai hi'n cyhoeddi amserlen ar gyfer yr holl sectorau preifat a enwir yn y Mesur, gan gynnwys cwmnïau ffôn a thelathrebu, yn ei chyhoeddiad cyn diwedd y flwyddyn.

Hoffem ofyn i chi alw ar i'r Comisiynydd ymddangos gerbron y pwyllgor i esbonio pam nad yw hi wedi cadw at ei haddewid a pham nad oes amserlen ar gyfer gosod safonau ar y sector telathrebu yn benodol.

Diolch i chi eto am roi ystyriaeth i'n gohebiaeth. Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes unrhyw fater arall yr hoffech ragor o wybodaeth neu eglurder yn ei gylch.

Yn gywir,

Manon Elin James

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

National Assembly for Wales
Petitions Committee

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2 Mawrth 2016

Annwyl Chris

Deiseb P-04-655: Mynnu ein Hawliau i'r Gymraeg yn y Sector Breifat

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi cael y ddeiseb ganlynol gan Gymdeithas yr Iaith, a gasglodd 442 o lofnodion.

Galwn ar y Cynulliad Cenedlaethol i fynnu bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau gwasanaethau Cymraeg gwell gan yr holl sectorau preifat a gwirfoddol, sy'n dod o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg 2011, drwy gydweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gyflwyno rheoliadau i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016 neu ar yr adeg gynharaf bosibl.
Mae cannoedd o filoedd o bobl Cymru yn cael eu hamddifadu o wasanaethau Cymraeg sylfaenol bob dydd gan nifer fawr o gyrff, megis cwmniau ffôn, band-eang, ynni, a thrafnidiaeth. Achosir yr anghyfiawnder cwbl ddiangen hwn oherwydd nad yw Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg wedi gweithredu'n llawn y pwerau sydd ganddynt o dan Mesur y Gymraeg, a basiwyd yn unfrydol gan y Cynulliad bron i bum mlynedd yn ôl. Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg felly yn rhwystro ewyllys ddemocrataidd pobl Cymru. Credwn ymhellach y dylid diwygio Mesur y Gymraeg er mwyn cyflymu a symleiddio'r broses o osod Safonau'r Gymraeg ar gyrff a chwmniau, sefydlu

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

hawliau cyffredinol i'r Gymraeg, ac ymestyn sgôp y Mesur i weddill y sector breifat, gan gynnwys archfarchnadoedd a banciau.

Ystyriwyd y ddeiseb hon ddiwethaf yn ein cyfarfod ar 2 Chwefror. Gan fod eich Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth lafar yn ddiweddar gan y Comisiynydd ar y pwynt hwn, cytunodd Aelodau y dylwn i ysgrifennu atoch i ofyn i chi ystyried safbwyntiau'r deisebydd wrth wneud gwaith dilynol ar y sesiwn dystiolaeth, ac i ofyn am ragor o wybodaeth am yr amserlen er mwyn cwblhau eich gwaith ar y mater hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb at dîm Clercio'r Pwyllgor yn **senedddeisebau@cynulliad.cymru**.

Yn gywir

William Powell AC
Cadeirydd

Amg: Gohebiaeth gan y deisebydd, dyddiedig 17/12/15 a 28/01/16.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

National Assembly for Wales
Communities, Equality and Local Government Committee

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

10 Mawrth 2016

Annwyl Bill

Deiseb P-04-655: Mynnu ein Hawliau i'r Gymraeg yn y Sector Preifat

Diolch i chi am eich llythyr diweddar yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb uchod pan fyddai'n gwneud gwaith dilynol ar y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg ym mis Rhagfyr 2015.

Byddwch am fod yn ymwybodol ein bod wedi trafod y mater o safonau iaith Gymraeg yn y sector preifat gyda'r Prif Weinidog wrth baratoi ar gyfer ein hadroddiad etifeddiaeth. Mae trawsgrifiad y cyfarfod hwnnw ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Yn ein Hadroddiad Etifeddiaeth rydym yn argymell bod ein pwyllgor olynol yn cynnal adolygiad o'r rownd nesaf o safonau iaith Gymraeg, yn ogystal ag ymgymryd â gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn gywir

Christine Chapman AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCCLLL@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCCLLL
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCELG@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCELG
0300 200 6565